
Argraffnodau ar gyfer ymyrchwyr nad ydynt yn bleidiau – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a deddfwriaeth gysylltiedig, ceir rheolau am roi argraffnodau ar ddeunyddiau etholiadol. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol drwy'r amser. Rydym yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r rheolau hynny.

Deunydd etholiadol yw deunydd cyhoeddedig y gellir ystyried yn rhesymol taw ei fwriad yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn un neu ragor o bleidiau gwleidyddol neu gategori o ymgeiswyr.

Pan gaiff deunydd etholiadol ei argraffu, rhaid iddo gynnwys rhai manylion penodol (y cyfeirir atynt fel

'argraffnodau') er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am y deunydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu.

Mae'r rheolau ar argraffnodau yn berthnasol i bob ymgyrchydd di-blaid, p'un a ydynt wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol ai peidio.

Cymhwysir rheolau argraffnodau gwahanol at ymgyrchwyr yn etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau cyngor yn yr Alban. Gweler [Argraffnodau ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid - Etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau cyngor yn yr Alban](#) am ragor o fanylion.

Mae'r ffeithlen hon yn esbonio'r rheolau y mae

rhaid i chi eu dilyn wrth ymgyrchu mewn unrhyw etholiad arall.

Beth yw ymgyrchydd nad yw'n blaid?

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr, yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Mewn cyfraith etholiadol, gelwir yr unigolion neu'r sefydliadau hyn yn 'drydydd partïon'. Lle mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol fe'u gelwir yn 'drydydd partïon cydnabyddedig'; yn ein canllawiau ni, rydym yn galw trydydd partïon cydnabyddedig yn 'ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig'.

Beth yw deunydd etholiadol?

Mae dau fath o ymgyrch ddi-blaid: ymgyrchoedd lleol ac ymgyrchoedd cyffredinol

Ar gyfer ymgyrchoedd lleol, deunydd etholiadol yw deunydd cyhoeddedig megis taflenni a hysbysebion y gellir ystyried yn rhesymol taw ei fwriad yw hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd mewn etholiad.

Ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol, deunydd etholiadol yw deunydd cyhoeddedig megis taflenni, hysbysebion a gwefannau y gellir ystyried yn rhesymol taw ei fwriad yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn:

- un neu ragor o bleidiau gwleidyddol

- pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr sy'n cefnogi, neu nad ydynt yn cefnogi, polisïau penodol
- categorïau eraill o ymgeiswyr, er enghraifft, ymgeiswyr a aeth i ysgol wladol, neu ymgeiswyr annibynnol (nad ydynt yn sefyll dros blaid wleidyddol)

Gall rheolau cyffredinol ynghylch deunydd etholiadol a gweithgarwch ymgyrchu arall yr ymgymerir ag ef gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cyn rhai etholiadau hefyd fod yn berthnasol i chi. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys terfynau gwario, rhoddion, ac adrodd. Gallwch ddarllen rhagor yn ein [Canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#).

Beth yw argraffnod

Ychwanegir argraffnod i'r deunydd etholiadol i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu sicrhau bod tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu.

Beth dylech chi ei gynnwys?

Ar ddeunydd etholiadol argraffedig megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffydd
- yr hyrwyddwr
- unrhyw berson y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (a heb fod yr hyrwyddwr)

Yr hyrwyddwr yw'r person sydd wedi awdurdodi cyhoeddi'r deunydd.

Rhaid i chi ddefnyddio cyfeiriad lle y gellir cysylltu â chi. Gall fod yn gyfeiriad cartref, cyfeiriad swyddfa, neu gyfeiriad busnes. Gallwch hefyd ddefnyddio blwch SP neu wasanaeth blwch post arall.

Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd print, nid oes angen i'ch hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd. Rhaid i'r hysbyseb gynnwys y manylion eraill, fel arfer.

Os byddwch yn cael eich talu i gyhoeddi deunydd etholiadol, rhaid i'r deunydd gynnwys argraffnod sy'n cynnwys manylion pwy bynnag sy'n eich talu. Mae hyn gan taw naill ai nhw yw'r hyrwyddwr, neu rydych chi'n cyhoeddi'r deunydd ar eu rhan.

Ym mhob achos, rhaid i chi sicrhau bod yr argraffnod yn rhestru'r holl sefydliadau sydd ynghlwm wrth gyhoeddi a hyrwyddo'r deunydd.

Mae'n drosedd i argraffydd neu hyrwyddwr gyhoeddi deunydd etholiadol argraffedig heb argraffnod.

Enghraifft o argraffnod

Os ydych wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchydd di-blaid, gall yr hyrwyddwr fod y person y rhoddwyd gwybod i ni amdano fel y 'person cyfrifol', neu rywun a awdurdodwyd ganddynt i fynd i wariant, neu'r sefydliad ei hun.

Dylai argraffnod ymddangos fel hyn:

Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 20 Heol y Bari, Caerdydd.

Hyrwyddwyd gan J Smith ar ran Grŵp yr Ymgyrchu, y ddau o 110 Stryd Uchel, Abertawe.

Os yw'r deunydd yn ddigidol, nid oes argraffydd, ac felly rhaid i argraffnod digidol ar ddeunydd ymgyrchu ymddangos fel hyn:

Hyrwyddwyd gan y Campaign Group, 110 High Street, Stafford.

Ble y dylech roi'r argraffnod?

Os yw eich deunydd yn ddogfen argraffedig un ochr - megis poster ffenestr - neu lle mae'r mwyafrif o wybodaeth ar un ochr, mae'n rhaid i chi roi'r argraffnod ar ochor honno'r ddogfen.

Os yw'n ddogfen amlochrog, mae'n rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf.

Gwefannau a deunydd electronig arall

Fel arfer da, rydym yn argymhell y dylech roi argraffnod ar ddeunydd etholiadol megis gwefannau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwyr ac unrhyw sefydliad y cafodd ei gynhyrchu ar eu rhan.

Lle nad yw'n ymarferol rhoi argraffnod llawn ar y deunydd etholiadol, dylech ystyried sut i gynnwys dulliau eraill o gysylltu'r deunydd etholiadol â chi.

Cyfryngau cymdeithasol

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod ar y neges ei hunan. Gallwch hefyd ei gynnwys rywle gerllaw sydd wedi ei nodi yn glir.

Er enghraifft, ar Twitter, gellir cynnwys eich argraffnod mewn man

amlyg ar eich proffil. Ar gyfer hysbysebion y talwyd amdanynt ar Facebook, gallwch gynnwys yr argraffnod yn nhestun yr ymwadiad sy'n mynd gyda'r hysbyseb.

Cyllido torfol

Os bydd eich tudalen cyllido torfol yn cynnwys deunydd etholiadol yn ogystal â gofyn am roddion, rhaid iddi gynnwys argraffnod. P'un ai felly y mae ai peidio, dylech sicrhau ei bod yn glir ar y dudalen i bwy y rhoddir yr arian.

Gallwch gael hyd i ragor o wybodaeth yn ein [ffeithlen cyllido torfol](#).

Delweddau a chartwnau

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod ar y llun ei hunan.

Os bydd eich tudalen cyllido torfol yn cynnwys deunydd etholiadol yn ogystal â gofyn am roddion, rhaid iddi gynnwys argraffnod. P'un ai felly y mae ai peidio, dylech sicrhau ei bod yn glir ar y dudalen i bwy y rhoddir yr arian.

Os caiff ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol, gallwch gynnwys argraffnod yn yr un modd ag y byddwch ar unrhyw neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol.

Os nad yw'n ymarferol rhoi argraffnod llawn ar ddelwedd, dylech gynnwys testun cyswllt, neu logo neu emblem ar ffurf hyperddolen sy'n arwain at eich argraffnod llawn.

Fideos

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod yn y fideo ei hunan.

Dylai'r argraffnod fod yn ddarllenadwy, a dylai ymddangos yn ddigon hir i bleidleiswyr allu ei ddarllen.

Os caiff y fideo ei chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol, gallwch gynnwys argraffnod yn yr un modd ag y byddwch ar unrhyw neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol.

Poster i'w lawrlwytho

Dylai unrhyw bosteri sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan ddwyn yr argraffnod llawn. Os caiff y posteri eu hargraffu a'u harddangos fel deunydd argraffedig, rhaid iddynt ddwyn yr argraffnod llawn gan gynnwys manylion yr argraffydd. Os ydych yn bwriadu gwneud hyn, dylech adael gwagle er mwyn iddynt gynnwys eu manylion fel yr argraffydd.

Sylwadau

Nid yw'n debygol bod sylwadau unigol a roddir ar fforymau trafod o fewn cwmpas y rheolai ynghylch deunydd etholiadol ac ymgyrchu di-blaid.

Fel arfer da, rydym yn awgrymu, os ydych yn defnyddio fforymau trafod ar-lein, dylech amlygu'r ffaith eich bod yn ymgeisydd lle y bo'n bosibl.

Ble y gallwch chi gael mwy o wybodaeth

Rydym yn cyhoeddi canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, sydd ar gael trwy

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/plaid-neu-ymgyrchydd/ymgyrchwyr-nad-ydynt-yn-bleidiau>.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynhori, a gallwch gysylltu â ni trwy un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

- Cymru
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
0333 103 1929
- Lloegr
pef@electoralcommission.org.uk
0333 103 1928
- Gogledd Iwerddon
infonorthenireland@electoralcommission.org.uk
0333 103 1928

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, mewn fersiwn brint bras, neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

publications@electoralcommission.org.uk

020 7271 0500